GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

1 Gorffennaf 2010

Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia

Bydd Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia yn cyhwyn ar 5 Gorffennaf ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gymdeithas Alzheimer wedi bod yn gweithio efo'i gilydd i drefnu cyfres o ddigwyddiadau ar draws Gogledd Cymru.

Thema Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia yw "Cofio'r Person" a bydd y Gymdeithas Alzheimer yn mynd i ysbytai ar draws Gogledd Cymru, yn cynnwys Glan Clwyd ym Modelwyddan, Wrecsam Maelor, Ysbyty Gwynedd ym Mangor, ac Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy. Bydd staff y Bwrdd Iechyd a'r Gymdeithas yn cyfarfod â defndydwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i annogh pobl i drafod Dementia a thynnu sylw at y daflen *"This is Me"*. Lansiwyd y daflen hon gan y Gymdeithas Alzheimer ym mis Chwefror gyda chefnogaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae'r daflen hon yn rhoi cyfle i ofalwyr roi gwybodaeth am y person sydd yn dioddef o dementia, megis be maen nhw'n hoffi a ddim yn hoffi, eu dymuniadau nhw a beth sydd orau ganddyn nhw. Y bwriad yw rhoi cip olwg o'r person y tu ôl i'r dementia. O'r wybodaeth hon bydd staff yn gallu ymateb i'w hanghenion gan wneud iddyn nhw deimlo'n llai cynhyrfus a gofidus.

Bydd Uned Bryn Hesketh sydd yn gofalu am bobl hŷn â salwch meddwl ym Mae Colwyn yn cynnal Caffi Dementia fore Iau, 8 Gorffennaf lle ceir cyflwyniad gan Dr. Arun Kaimal, Seiciatrydd Ymgynghorol. Cynhelir sesiwn galw heibio yn y prynhawn lle bydd sylw yn cael ei roi i waith y Gymdeithas Alzheimer a chlinigau cof yn yr ardal. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn y digwyddiad codi arian hwn. Bydd Uned EMI Glan Traeth yn Y Rhyl yn cynnal te parti brynhawn Mawrth, 6 Gorffennaf am 1.30pm.

Mae digwyddiad galw heibio wedi cael ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth, 6 Gorffennaf yn yr ystafelloedd Alzheimer yn Wrecsam. Bydd Dr. Howard Cattel, Seiciatrydd Ymgygnhorol yn rhoi cyflwyniad ar fyw gyda dementia. Mae te mefus a chacenni wedi cael ei drefnu ddydd Iau, 8 Gorffennaf yn Ysbyty Dydd Helyg yn Wrecsam er mwyn codi arian.

Dywedodd Dr. Giles Harborne, Pennaeth Staff, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu: "Rydym yn falch o gael cefnogi'r Gymdeithas Alzheimer efo'r fenter hon. Bydd ein timau iechyd meddwl yn y gymuned a staff iechyd meddwl yr ysbyty ar gael yn y gwahanol ddigwyddiadau hyn drwy'r wythnos ac rydym yn gwahodd holl ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i ddod i un o'r digwyddiadau."

Dywedodd Cymdeithas Alzheimer Gogledd Cymru: "Rydym yn falch iawn o gael gweithio efo'r Bwrdd Iechyd yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Dementia. Drwy

weithio efo'n gilydd, bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o dementia a'r gwasanaethau sydd ar gael yng Ngogledd Cymru. Bydd holl elw'r digwyddiadau yn mynd i'r Gymdeithas Alzheimer i barhau â'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar draws Gogledd Cymru."

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**
Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**

1 July 2010

Dementia Awareness Week

Week commencing 5th July is Dementia Awareness Week and working together, the Betsi Cadwaladr University Health Board and the Alzheimer's Society has organized a series of events right across North Wales.

The theme of Dementia Awareness Week is "Remember the Person" and the Alzheimer's Society will be in attendance at hospitals across North Wales, including Glan Clwyd in Bodelwyddan, Wrexham Maelor, and Ysbyty Gwynedd in Bangor, and Deeside Community Hospital. Health Board staff and the Society will be meeting with service users and the general public to encourage discussion on Dementia and highlighting the "This is Me" leaflet. This leaflet was launched by the Alzheimer's Society in February and is supported by the Royal College of Nursing. The leaflet enables carers to fill in information about the person with dementia, such as their likes, dislikes, needs, wishes and preferences and aims to provide a "snapshot" of the person behind the dementia. This information will enable staff to respond to their needs and reduce feelings of agitation and distress.

Bryn Hesketh Elderly Mentally Ill Unit in Colwyn Bay will be holding a local Dementia Café on the morning of Thursday, 8th July with a presentation by Dr. Arun Kaimal, Consultant Psychiatrist. A drop-in session is planned for the afternoon where the work of the Alzheimer's Society and memory clinics in the area will be highlighted. Light refreshments will be available as part of a fund-raising event. Glan Traeth EMI unit in Rhyl is holding an afternoon tea party on Tuesday, 6th July at 1.30pm.

A drop-in event has also been arranged for Tuesday, 6th July at the Alzheimer's suite in Wrexham where Dr. Howard Cattel, Consultant Psychiatrist will present on living with dementia. On Thursday, 8th July, a strawberry and cup cake tea fund-raising event has been arranged at the Helyg Day hospital in Wrexham.

Dr. Giles Harborne, Chief of Staff, Mental Health & Learning Disabilities said “We are pleased to be supporting the Alzheimer’s Society in this venture. Our Community mental health teams and mental health staff from the hospital will be on-hand at the various events throughout the week and we extend an invitation to all our service-users and members of the public to come along to one of our events.”

The Alzheimer's Society North Wales said “we are delighted to be working in partnership with the Health Board during this year’s Dementia Awareness week. By working together, this will increase the awareness of dementia and the services that are available in North Wales. All proceeds raised from the events will go to the Alzheimers Society to continue its work across North Wales"

ENDS

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies	**01745 534495**
Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**